



Eich cyf/Your ref P-05-1032
Ein cyf/Our ref EM/00623/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

30 Hydref 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr am enwau tai Cymraeg. Mae gen i ddiddordeb penodol yn y pwnc hwn, ac rwy'n deall pan fydd enw, fel enw tŷ, yn cael ei newid, y gall deimlo fel colli rhywbeth sy'n gynhenid i'r gymuned leol. Fel llywodraeth rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynglŷn â disodli enwau lleoedd Cymraeg, ac rydym yn cymryd camau i geisio'u diogelu.

Rwy'n teimlo ei bod yn bwysig cydnabod ein bod, wrth sôn am 'enwau lleoedd', yn siarad am faes eang a chymhleth iawn, gyda gwahanol gyd-destunau'n galw am atebion gwahanol. Yn gyffredinol, gellir rhannu'r meysydd hyn yn dair haen:

- enwau aneddiadau
- enwau nodweddion daearyddol a hanesyddol
- enwau tai.

Isod rydw i wedi ceisio gosod allan ein dull presennol o geisio gwarchod y mathau gwahanol hyn o enwau lleoedd yng Nghymru.

Enwau aneddiadau

Yn achos enwau aneddiadau (h.y. enwau dinasoedd, trefi a phentrefi), mae safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i arwyddion yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid gosod enwau lleoedd Cymraeg, lle maent yn bodoli, ar bob arwydd ffordd a phob deunydd arall y mae awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt. Yn y pen draw mae hyn yn normaleiddio'r enwau hynny drwy gyfrwng eu presenoldeb mewn manau amlwg, ac yn sicrhau nad ydynt yn cael eu disodli.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn gyfrifol am roi cyngor i unigolion a sefydliadau o bob math ynghylch ffurfiau safonol enwau lleoedd yng Nghymru. Mae Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol y Comisiynydd yn adnodd ar-lein, y gellir ei chwilio neu lawrlwytho i ganfod enwau safonol pentrefi, trefi a dinasoedd Cymru. Mae'r rhestr ar gael ar:

<http://www.comisiynyddygybraeg.cymru/cymraeg/comisiynydd/enwaulleoedd/pages/chwilio.aspx>

Enwau nodweddion daearyddol a hanesyddol

O safbwynt nodweddion daearyddol amlwg, rwy'n credu'n gryf bod enwau Cymraeg yn allweddol wrth i ni farchnata Cymru i dwristiaid o bedwar ban byd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn benderfynol o ddatblygu rôl y Gymraeg mewn datblygiadau technolegol fel mapiau ar-lein, fel ffordd o wneud yn siŵr bod enwau Cymraeg ar nodweddion daearyddol yn parhau i gael eu defnyddio, ac nad ydynt yn cael eu disodli.

Mae enwau nodweddion daearyddol a hanesyddol hefyd yn rhan bwysig o'n treftadaeth a'n hunaniaeth, wrth gwrs, a chydabuwyd eu harwyddocâd yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf yn cydnabod pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol drwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gasglu a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Dyma'r unig gofnod statudol o enwau lleoedd hanesyddol yn y Deyrnas Unedig.

Caiff y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru

(<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>) ei chynnal ar ran Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Fe'i lanswyd yn 2017, ac mae eisoes wedi dyblu o ran ei faint i gynnwys bron i 700,000 o gofnodion. Mae'n cofnodi enwau, yn ogystal â ffurfiau a sillafiadau amgen, ar gyfer aneddiadau, eiddo, heolydd, llwybrau, afonydd a nodweddion eraill di-ri a ddefnyddiwyd dros y canrifoedd.

Mae'r rhestr yn fwy na chofnod defnyddiol o enwau lleoedd o'r gorffennol, mae hefyd yn adnodd pwysig at y dyfodol. Un o'i brif amcanion yw gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfoeth yr enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru a'u pwysigrwydd fel elfennau o'n treftadaeth ddiwylliannol ehangach. Wrth i ymwybyddiaeth pobl o enwau lleoedd hanesyddol a'u pwysigrwydd gynyddu, byddant heb os yn eu gwerthfawrogi i raddau mwy, ac yn parhau i'w defnyddio nawr ac yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllaw statudol ar ddefnyddio'r rhestr, ar gyfer awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol, a Chyfoeth Naturiol Cymru. Dylai'r cyrff cyhoeddus hynny ystyried y rhestr wrth ystyried enwi ac ailenwi eiddo a lleoedd dan eu gofal.

Mae Cadw, y Comisiwn Brenhinol a Chomisiynydd y Gymraeg yn ail-gydio yn y gwaith o ymgysylltu gydag awdurdodau lleol a chyrff eraill – gwaith a gafodd ei atal dros dro yn sgil Covid-19. Nod y gwaith hwn yw codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau a ddarperir gan y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol a Rhestr o Enwau Lleoedd Safonol y Comisiynydd, a'r modd y gellir eu defnyddio ar gyfer hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o werth enwau lleoedd Cymru.

At hynny, mae Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg, yn darparu canllawiau atodol i Bolisi Cynllunio Cymru. Yn y canllaw hwn, anogir defnyddio enwau traddodiadol Cymraeg ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

Enwau tai

O blith y tri math o enw a grybwyllir uchod, enwau tai o bosib yw'r math anoddaf i'w diogelu. Ar y naill law, os yw eiddo'n cael ei adnabod wrth ei enw yn unig, ni all perchennog newid yr enw hwnnw ar fypwy. Rhaid gwneud cais i'r Awdurdod Lleol, sy'n gyfrifol am enwi a rhifo strydoedd. Y rheswm am hyn yw er mwyn sicrhau bod cyrff statudol fel yr awdurdod tân, yr heddlu, y gwasanaeth ambiwlans a Swyddfa'r Post yn gallu dod o hyd i bob eiddo'n ddirwysr. Fodd bynnag, does dim byd i atal unigolion rhag rhoi arwydd gydag enw o'u dewis nhw ar eiddo os yw'r eiddo hwnnw'n hysbys i'r awdurdodau drwy rif stryd, cyhyd â'u bod yn parhau i ddefnyddio'r rhif hwnnw wrth gyfeirio at yr eiddo.

Yn yr un modd, gall unigolyn brynu eiddo gydag enw hanesyddol, a chysylltu enw busnes newydd wrth yr eiddo hwnnw heb newid yr enw gwreiddiol ei hun. Mae'r enghraifft mwyaf adnabyddus o hyn — Faerdre Fach, y fferm yng Ngheredigion sy'n dyddio o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ac a enwyd yn Happy Donkey Hill — yn enghraifft dda o hyn. Y canfyddiad cyhoeddus yw i'r eiddo gael ei ail-enwi, ond Faerdre Fach yw enw'r fferm o hyd, gyda'r busnes a agorwyd ar yr eiddo yn cael ei alw'n Happy Donkey Hill. Mewn gwirionedd, ni chafodd enw'r eiddo ei newid yn ffurfiol.

Mewn ymgais i fynd i'r afael â hyn, mae'r canllawiau statudol ar ddefnyddio'r Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol, y cyfeirir ati uchod, yn cynnwys cyfarwyddiadau penodol ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau statudol o ran enwi strydoedd a rhifo tai. Mae'n datgan y dylai awdurdodau lleol yng Nghymru fod â pholisïau ynghylch enwi a rhifo strydoedd ac eiddo, sy'n cydnabod pwysigrwydd enwau lleoedd hanesyddol, ac sy'n annog parhau i'w defnyddio.

Yn achos ceisiadau i newid enwau eiddo, mae'r canllaw'n nodi y bydd disgwyl i awdurdodau wirio'r rhestr o enwau lleoedd hanesyddol wrth brosesu'r ceisiadau hyn. Os yw enw hanesyddol yn ymddangos ar y rhestr, neu os yw swyddog yn ymwybodol o enw tebyg o ffynhonnell arall, dylid annog yr ymgeisydd i gadw, neu hyd yn oed fabwysiadu, yr enw hanesyddol.

Am ei bod yn hawdd cael mynediad at y rhestr ar y we, gellir annog datblygwyr a pherchnogion eiddo i droi ati eu hunain cyn cyflwyno cais i enwi neu ailenwi. Er enghraifft, os yw cais am enw stryd newydd yn diystyru enw hanesyddol addas sydd ar y rhestr, gofynnir i'r awdurdod dynnu sylw'r datblygwr ato ac annog ei ddefnyddio. Mae curadur amser llawn y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol yn hapus i gynorthwyo datblygwyr ac awdurdodau lleol i ddewis enwau hanesyddol priodol ar gyfer datblygiadau a strydoedd newydd.

I grynhoi, gellir gweld uchod bod yr opsiynau ar gyfer diogelu enwau yn mynd yn fwy cymhleth wrth i ni symud i lawr o lefel aneddiadau i lefel enwau tai.

At hynny, rhaid i ni ochel rhag creu datrysiad sy'n arwain at ganlyniadau anfwriadol. Er enghraifft, yn ôl Cyngor Gwynedd, o blith 140 hysbysiad o'r bwriad i newid enw tŷ a ddaeth i law yn 2019, dim ond chwech ohonynt aeth ymlaen i newid o enw Cymraeg i enw Saesneg. Yng Ngheredigion yn 2018-19, cafwyd 44 cais i roi enwau Cymraeg ar dai newydd, a 4 cais i roi enwau Saesneg ar dai newydd, yn ogystal â 10 cais i newid enw tŷ o enw Saesneg i enw Cymraeg, a 2 gais i newid enw tŷ o enw Cymraeg i enw Saesneg. Os ydym yn bwriadu nid yn unig diogelu'r enwau Cymraeg sydd eisoes yn bodoli, ond hefyd annog rhagor o bobl i ddefnyddio enwau Cymraeg ar gyfer eu tai yn y dyfodol, rhaid i ni fod yn siŵr nad ydym yn milwriaethu yn erbyn hynny nac yn atal hynny rhag ddigwydd.

Rydym hefyd wedi gweld sut mae ymgyrchu a chodi ymwybyddiaeth yn lleol wedi arwain at wrth-droi penderfyniadau i ail-enwi lleoliadau hanesyddol amlwg. Yr enghraifft fwyaf adnabyddus, o bosib, yw Plas Gynllifon, y bu i'w ddatblygwyr ddefnyddio'r enw Wynnborn Mansion er mwyn ei farchnata. Yn dilyn adwaith negyddol cryf yn lleol ac yn genedlaethol, cyhoeddwyd nad oedd ganddynt gynlluniau i newid yr enw gwreiddiol.

Mae enwau lleoedd Cymraeg, enwau Cymraeg ar gyfer nodweddion daearyddol, ac enwau tai Cymraeg yn rhan annatod o'n hanes a'n diwylliant, nid yn unig fel tystiolaeth a all gyfoethogi ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o fannau hanesyddol, ond fel rhan ganolog o'n hymwybyddiaeth fel cenedl fodern.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru ystyriaeth ddwys i gyflwyno deddfwriaeth i ddiogelu enwau hanesyddol wrth ddatblygu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016. Ar ôl dadansoddi'r holl opsiynau, daethpwyd i'r casgliad ar y pryd y byddai'r fath fesurau'n ddud – yn galw am gydsyniad, trefn orfodi, a threfn apelio – yn anodd iawn i'w cynnal, ac o bosib yn codi materion o ran hawliau dynol mewn perthynas ag enwau tai ac eiddo.

Er hynny, rydym yn adolygu ein polisïau yn hyn o beth yn barhaus. I'r perwyl hwnnw, rydym wrthi'n casglu tystiolaeth i'n helpu i ystyried opsiynau at y dyfodol, a allai gynnwys rhaglenni lleol, ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd neu, os oes angen, deddfwriaeth.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language